



## YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH  
CYFROL 2 RHIF 41  
CHWEFROR 2012

Yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf bu cryn bendroni p'un ai fyddai Prif Weithredwr y *Royal Bank of Scotland*, Stephen Hester, yn cymryd bonws o ryw £1,000,000 fel ychwanegiad i'w gyflog. Erbyn hyn gwyddom iddo benderfynu peidio â'i dderbyn. Er hynny, mae'n siwr iddo fod o dan bwysau aruthrol i wrthod y taliad ychwanegol hwn a oedd, er tegwch iddo ef, yn rhan o'i gytundeb. Ond o gofio bod Cadeirydd y Banc wedi gwrthod ei fonws ef, bu'n anodd iawn i Stephen Hester beidio â dilyn ei esiampl. I'r rhan fwyaf o bobl mae £1,000,000 yn swm rhyfeddol ac anodd credu bod un person yn medru ennill cymaint o arian ar ben cyflog misol!

Ond, os byddwn fyw ac iach, fe ddaw bonws bach i ninnau hefyd cyn bo hir. Ie, mae'n flwyddyn naid unwaith eto ac am hynny mae yna naw diwrnod ar hugain ym mis Chwefror, yn hytrach na'r wyth diwrnod ar hugain arferol. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn cawn fonws arall hefyd, sef diwrnod o wyliau ychwanegol i nodi dathliadau jiwibili diemwnt y Frenhines.

Ydy, mae'n braf cael rhywbeth bach ychwanegol mewn bywyd. Wrth fynd i siopa, mae'r archfarchnadoedd yn aml yn cynnig dau beth am bris un. Slawer dydd, pan awn am baned o goffi mewn caffi yn Abertawe, byddwn yn cael yr ail baned am ddim. (Mae'n debyg bod siop *Ikea* yn dal i gynnig hyn heddiw.) Ac yn aml iawn pan fydd rhyw gwmni yn ceisio denu pobl i brynu rhywbeth newydd byddant yn cynnig cludo'r nwyddau yn rhad ac am ddim i'r cartref. Mae pob busnes erbyn hyn yn gwneud ei orau glas i gynnig rhywbeth yn ychwanegol er mwyn denu'r cwsmer i brynu.

Ond gwahanol iawn yw trefn Duw wrth iddo geisio ein denu ni i gredu ynddo.

Un o'r hanesion hyfrytaf yn y Testament Newydd yw'r hanes am y wraig weddw yn rhoi dau ddarn o arian yn nhrysorfa'r deml. Ni wyddom ddim o'i hanes ond gwyddom iddi roi'r cyfan oedd ganddi. Nid cyfrannu rhyw arian yn ychwanegol at goffrau'r deml a wnaeth hi, nid rhoi'r hyn oedd dros ben ganddi, ond rhoi'r cyfan yn ddi-rwgnach heb geisio unrhyw sylw na chlod am wneud hynny. Meddai un am ei chyfraniad: *mae'n tanlinellu'r wers mai'r hyn sy'n cyfrif yw nid faint y mae rhywun yn ei roi ond faint y mae'n ei gadw iddo'i hun*. Mae'r hanes amdani wrth gwrs yn ein harwain yn uniongyrchol at weithred Duw yn rhoi inni ei Fab Iesu Grist. Yn union fel yn hanes y wraig weddw fe roddodd Dduw bopeth inni heb ddal dim yn ôl. Yn nyfodiad Crist i'r byd cawsom y cyfan ganddo. Nid rhyw rodd ychwanegol mohono, nid bonws arbennig ond y swm a'r sylwedd wrth i Dduw geisio eich denu chi a fi, ei bobl a'i blant, i gredu ynddo o'r newydd.

Pa eisiau unrhyw fonws pan gawsom y cyfan yng Nghrist?

Pob bendith

Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW. Rhif Ffôn : 01970 820939

E-bost: [berwynfa@btinternet.com](mailto:berwynfa@btinternet.com)

## CALENDR MIS CHWEFROR 2012

Cyhoeddwr y Mis: Richard Wyn Davies	Organydd y Mis : Mair Evans	
5 Chwefror 2.30yp	Oedfa Gymun Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Sue Hughes
12 Chwefror 10.30yb	Oedfa Deuluol Gweinidog	
19 Chwefror 2.30yp	Oedfa Bregeth Gweinidog	Gofal y Te: I'w drefnu
26 Chwefror 10.30yb	Oedfa Bregeth Gweinidog Clwb Sul yng ngofal Efan Williams	
4 Mawrth 2.30yp	Oedfa Gymun Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Ella a Doreen

### I'CH DYDDIADUR

6 Chwefror: Cinio Bara Caws yng Nghapel y Morfa o 12.15 – 1.30yp.

6 Chwefror: Cyfarfod Diaconiaid am 7.00

8 Chwefror: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00

9 Chwefror: Os Mêts: Noson Gemau: Festri Capel y Garn am 7yh

14 Chwefror: Cymdeithas Madog: Taith i Oregon yng nghwmni Iola Wyn, Arthur ac Eirian Hughes am 7.30yh.

15 Chwefror: Cymdeithas Bethel: Mr Wil Griffiths: 'Llestri Capel' am 2yp

21 Chwefror: Noson Gremfog yn Festri Horeb am 7.00

22 Chwefror: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp. Horeb yn gyfrifol am weini.

22 Chwefror: Cymdeithas y Penrhyn: Haf Llewelyn yn trafod ei nofelau am 7.30yh. (D.S.Sylwer ar y newid dyddiad)

28 Chwefror: Cwrdd Gweddi Misol: Festri Horeb am 7.30yh

24 Mehefin: Pererindod Horeb a Bethel.

6 Hydref: Diwrnod i'r Brenin: Gŵyl Gristnogol i bawb o bob oed. Maes y Sioe, Llanelwedd. Trefnir ar y cyd gan Undeb yr Annibynwyr ac Undeb Bedyddwyr Cymru.

### Lloffion

Arddangosfa Festri Horeb: Diolch i bawb a gyfrannodd i'r Arddangosfa yn y Festri yn ystod mis Ionawr. Diolch yn arbennig i William am roi'r cyfan at ei gilydd. Cawsom ymateb arbennig.

Llongyfarchiadau i Debbie ar lwyddo yn ei phrawf gyrru!

Pobl y Porth Tywyll: Ym mis Mawrth eleni cyhoeddir cyfrol *Pobl y Porth Tywyll* gan y Parchg Ddr Desmond Davies. Mae'r gyfrol yn olrhain hanes y Bedyddwyr yng Nghaerfyrddin o 1650-1968 ac fe fydd yn gyfraniad pwysig a gwerthfawr i hanes Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion. Cost y gyfrol yw £17-50 ac o'i harchebu cyn ei chyhoeddi ni fydd rhaid talu cost cludiant. Cysylltwch â'r Gweinidog os hoffech archebu gopi.

**Rhaglen Cymanfa Ganu 2012:** Copïau ar gael gan Ceris am £1.30.